

**DATGANIAD O FESURAU ARBENNIG: CANADA  
RHEOLIADAU'R FASNACH MEWN ANIFEILIAID A CHYNHYRCHION  
PERTHYNOL (CYMRU) 2011 (OS 2011/ 2379) (C. 252)**

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd wedi cael gwybod bod presenoldeb fflw adar pathogenig iawn wedi cael ei gadarnhau yn Canada. Mae hyn yn golygu bod perygl y bydd rhai anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid sy'n tarddu neu'n cael eu hanfon o Canada yn peri risg i iechyd pobl neu anifeiliaid.

O dan reoliad 29(1) o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011<sup>1</sup>, mae Gweinidogion Cymru yn datgan bod y mesurau arbennig canlynol yn angenrheidiol yng Nghymru er mwyn rheoli'r risg i iechyd pobl neu anifeiliaid:

**Atal rhai anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid rhag dod i mewn i Gymru**

1. Mae'r cynhyrchion canlynol sy'n tarddu neu'n cael eu hanfon o'r tiriogaethau neu'r parthau yn Canada a chanddynt y cod CA-2, sy'n cael eu rhestru a'u disgrifio yng ngholofnau 1 a 2 o'r tabl yn yr Atodiad i'r Datganiad hwn, yn cael eu hatal rhag dod i mewn i Gymru:
  - a. dofednod brido sydd â thystysgrifau milfeddygol BPP, BPR a LT20 fel y nodir yng ngholofn 3 o'r tabl yn yr Atodiad;
  - b. Cywion dofednod blwydd oed sydd â thystysgrifau milfeddygol DOC a DOR fel y nodir yng ngholofn 3 o'r tabl yn yr Atodiad;
  - c. cig ffres sydd â thystysgrifau milfeddygol POU, RAT a WGM fel y nodir yng ngholofn 3 o'r tabl yn yr Atodiad;
  - d. dofednod i'w lladd sydd â thystysgrifau milfeddygol SRP ac SRA fel y nodir yng ngholofn 3 o'r tabl yn yr Atodiad;
  - e. wyau deor ar gyfer dofednod sydd â thystysgrif filfeddygol HER, a HEP fel y nodir yng ngholofn 3 o'r tabl yn yr Atodiad;
  - f. llai nag 20 uned o ddofednod sydd thystysgrif filfeddygol LT20 fel y nodir yng ngholofn 3 o'r tabl yn yr Atodiad
  - g. cynhyrchion cig sy'n deillio o brosesu cig dofednod neu gig adar hela gwyllt neu o brosesu cynhyrchion o'r fath ymhellach, nad ydynt yn destun triniaeth benodol B, C neu D fel y'u diffinnir yn Rhan 4 o Atodiad II i Benderfyniad yr UE a ddargedwir yn 2007/777/EC<sup>2</sup>
  - h. sgil-gynhyrchion anifeiliaid heb eu prosesu sy'n cynnwys cyrff neu rannau o ddofednod neu adar hela gwyllt, neu gynhyrchion sy'n dod o ddofednod, ratidau neu adar hela gwyllt;
  - i. cynhyrchion cyfansawdd sy'n cynnwys cynhyrchion cig sy'n deillio o brosesu cig dofednod neu adar hela gwyllt, neu o brosesu cynhyrchion o'r fath ymhellach, nad ydynt yn destun triniaeth benodol B, C neu D fel y'u diffinnir yn Rhan 4 o Atodiad II i Benderfyniad yr UE a ddargedwir 2007/777/EC.

<sup>(1)</sup> O.S. 2011/2379 (W.252). Cafodd Rheoliad 29 ei ddisodli gan O.S. 2020/44 (C. 5) a'i ddiwygio gan O.S. 2020/1612 (C. 337).

<sup>2</sup> EUD 2007/777

2. Nid yw paragraffau 1(h) a 1(i) o'r datganiad hwn yn berthnasol i'r canlynol:

- a. wyau penodedig sy'n rhydd rhag pathogenau o fewn ystyr Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EC) 798/2008; a
- b. wyau fel y'u diffinnir ym mharagraff 5.1 o Atodiad 1 i Reoliad (EC) 853/2004 neu gynhyrchion wyau fel y'u diffinnir ym mharagraff 7.3 o'r Atodiad hwnnw i'r Rheoliad hwnnw.

3. Pan nodir dyddiadau yng ngholofn 6 o'r Atodiad i'r Datganiad hwn:

- a. caniateir i gynhyrchion anifeiliaid o'r fath ddod i mewn i Gymru, gan gynnwys y rhai a gludir ar y môr mawr, os cawsant eu cynhyrchu cyn y dyddiad a nodir yng ngholofn 6A a'u mewnfario o fewn 90 diwrnod i'r dyddiad a nodir yng ngholofn 6A.

## Dehongli

4. Ym mharagraff 1 o'r Datganiad hwn:

- a. mae gan "ddofednod" a "chig" yr un ystyr ag yn Erthygl 2 o Reoliad yr UE a ddargedwir 798/2008<sup>3</sup>
- b. mae gan "gynhyrchion cig" yr un ystyr ag ym mharagraff 7.1 o Atodiad I i Reoliad yr UE a ddargedwir 853/2004<sup>4</sup>
- c. mae gan "sgil-gynhyrchion anifeiliaid" yr un ystyr ag yn Erthygl 3 o Reoliad yr UE a ddargedwir 1069/2009<sup>5</sup>
- d. mae gan "gynhyrchion cyfansawdd" yr un ystyr ag yn Erthygl 2 o Benderfyniad yr UE a ddargedwir 2007/275/EC<sup>6</sup>

## Dyddiad dod i rym a hyd y mesurau arbennig

5. Mae'r mesurau arbennig yn y Datganiad hwn yn berthnasol o ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y gwneir y Datganiad hwn. nes i'r Datganiad hwn gael ei ddirymu neu ei ddiwygio drwy ddatganiad pellach.

Y dyddiad y gwnaed y Datganiad: 15:30 25/03/2022

Gavin Watkins, Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol Cymru o dan awdurdod y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

---

<sup>3</sup> EUR 798/2008.

<sup>4</sup> EUR 853/2004.

<sup>5</sup> EUR 1069/2009.

<sup>6</sup> EUD 2007/275.

**Mae mewnforio anifeiliaid neu gynhyrchion anifeiliaid yn groes i'r Datganiad hwn yn drosedd o dan Reoliad 29(1) o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011.**

**Atodiad**

Cod y diriogaeth neu'r parth	Disgrifiad o'r diriogaeth neu'r parth	Tystysgrif filfeddygol		Amodau penodol	Dyddiad cau
		Model(au)	Gwarantau ychwanegol		
1	2	3	4	5	6
CA-0	Y wlad gyfan	EP, E			
CA-1	Canada gyfan ac eithrio ardal CA-2	WGM	VIII		
		POU, RAT		N	
		BPP, BPR, DOC, DOR, HEP, HER, SRP, SRA, LT20			
CA-2	Yr ardal o Canada sy'n cyfateb i:				
CA-2.1	Tiriogaeth Canada sy'n cyfateb i Nova Scotia â Chyfesurynnau Daearyddol 45.0, -64.63 yng Ngorllewin Nova Scotia a'r parth rheoli 10km o amgylch y cyfesurynnau uchod	WGM		P2	30.01.2022
		POU, RAT		N P2	30.01.2022
		BPP, BPR, DOC, DOR, HEP, HER, SRP, SRA, LT20		N P2	30.01.2022

Mae gan y geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn yr Atodiad hwn yr un ystyr ag yn Rheoliad yr UE a ddargedwir 798/2008<sup>7</sup>.

<sup>7</sup> EUR 798/2008.